Chwarae: Mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc anabl

Rhestr o'r hawliau sydd gan bob plentyn a pherson ifanc yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn neu'r CCUHP. Mae bron pob gwlad yn y byd wedi cytuno i'r CCUHP.

Mae Erthygl 31 o'r CCUHP yn dweud bod gan BOB plentyn a pherson ifanc yr hawl i chwarae ac i ymlacio

Mae'r Comisiynydd Plant yn gofyn i blant a phobl ifanc Cymru am eu barn ar y gwaith y mae e a'i dîm yn ei wneud.

Dwedoch **chi** dylai'r Comisiynydd Plant wneud rhywbeth i sicrhau bod gan blant a phobl ifanc anabl yr un cyfleoedd i chwarae â phawb arall.

Beth wnaethon ni?

- Cwrdd â phlant a phobl ifanc anabl a gwrando ar eu barn nhw
- Edrych yn ofalus ar y cynlluniau chwarae o bob rhan o Gymru i weld beth oedden nhw yn ei ddweud
- Ysgrifennu adroddiad a meddwl am beth i'w wneud nesaf.

Pa wybodaeth gawson ni?

- Mae plant a phobl ifanc anabl yn mwynhau chwarae ac yn gwneud llawer o bethau gwahanol
- Mae llawer o'r cyfleoedd sydd ganddyn nhw i chwarae yn cael eu trefnu ac mae oedolyn gyda nhw — ond dydyn nhw ddim wastad eisiau nac angen hyn
- Does dim digon o wybodaeth ar gael am chwarae os ydych chi'n anabl
- Doedd rhai o'r cynlluniau chwarae lleol ddim yn sôn am blant a phobl ifanc anabl o gwbl, a doedd llawer ohonyn nhw ddim yn dweud sut oedden nhw'n ei gwneud hi'n haws iddyn nhw fwynhau eu hawl i chwarae.

Ffoniwch ni ar

Rhadffôn 0808 801 1000

Tecstiwch ni ar

Rhadtecst 80800

(dechreuwch y neges â COM)

Mae'r gwasanaeth rhadffôn ar agor rhwng 9–1 a 2–5 yn ystod yr wythnos

www.complantcymru.org.uk

Beth yw'r camau nesaf tuag at wella pethau?

- Cyhoeddi ein hadroddiad
- Ysgrifennu at bob awdurdod lleol i ddweud beth oedd ein barn am eu cynlluniau chwarae
- Cwrdd â phobl sy'n gallu gwneud gwahaniaeth a siarad â nhw, fel bod pethau yn gwella
- Atgoffa pobl os ydyn nhw am wybod beth sydd wir yn bwysig i blant a phobl ifanc anabl bod angen cwrdd â nhw, gwrando ar yr hyn maen nhw'n ei ddweud a'u cymryd o ddifrif.

Er mwyn bod yn siŵr bod plant a phobl ifanc anabl yn gallu mwynhau eu hawl i chwarae, rydyn ni'n meddwl dylai cynlluniau chwarae:

- Sôn am blant a phobl ifanc anabl fel bod pawb yn gwybod eu bod nhw ddim wedi cael eu hanghofio!
- Cynnwys plant a phobl ifanc wrth gynllunio a dylunio llefydd ac adnoddau chwarae
- Cydnabod bod plant anabl yn hoffi gwneud amrywiaeth o bethau gwahanol, a bod eisiau mwy na chyfleusterau ac offer arbennig, neu gyfleoedd chwarae wedi eu trefnu arnyn nhw — maen nhw eisiau dewis
- Gwneud hi'n glir eu bod awdurdodau lleol wedi ystyried plant a phobl ifanc anabl wrth ysgrifennu eu cynlluniau a'u bod yn ceisio gwneud yn siŵr bod **pob** plentyn yn cael ei hawliau.

Comisiynydd Plant Cymru
Tŷ Ystumllwynarth
Llys Siarter
Phoenix Way
Llansamlet
Abertawe SA7 9FS

T: 01792 765600
F: 01792 765601

www.complantcymru.org.uk

Comisiynydd Plant Cymru
Plas Penrhos
Oak Drive
Bae Colwyn
Conwy
LL29 7YW

T: 01492 523333
F: 01492 523336

post@complantcymru.org.uk